



“Rydym yn Gwranddo”

Deall ac Ymateb i Ddinasyddion

Cynnwys:

Deall ein Dinasyddion.....	Error! Bookmark not defined.
Cwsmeriaid sy'n Fodlon ac yn Ymgysylltu....	Error! Bookmark not defined.
Siopa 101 Shoppa.....	3
Ymateb i Arolygon.....	Error! Bookmark not defined.
Dull Cyllidebol Wreccsam.....	Error! Bookmark not defined.
Gwerthwyr ar y Farchnad.....	Error! Bookmark not defined.
Cais am Statws Dinas.....	Error! Bookmark not defined.
Gofal Cymdeithasol Oedolion.....	6
Parcio am Ddim mewn dau faes parcio Canol Tref.....	Error! Bookmark not defined.
defined.	
Strategaeth Cydlynid Cymunedol.....	Error! Bookmark not defined.
Marchnad Dydd Iau.....	Error! Bookmark not defined.
Canfyddiad o Drosedd.....	Error! Bookmark not defined.
Gwasanaethau Tai.....	Error! Bookmark not defined.
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.....	Error! Bookmark not defined.
Y Prif Faterion i Fwrdeistref Sirol Wreccsam..	Error! Bookmark not defined.
Cludiant Cymunedol.....	Error! Bookmark not defined.
Cludiant Cyhoeddus.....	Error! Bookmark not defined.
Cynllun Cydraddoldeb Strategol.....	Error! Bookmark not defined.
Bodddhad y Cwsmer Hamdden.....	Error! Bookmark not defined.
Creu Wreccsam egnïol.....	Error! Bookmark not defined.
Monitro Cwynion, Canmoliaeth a Sylwadau .	Error! Bookmark not defined.

Deall ein Dinasyddion

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â phobl leol, sefydliadau a chymunedau ar amrywiaeth o lefelau - o drafod pecyn gofal cymdeithasol wedi'i deilwra gydag unigolyn, i ymgynghori â'r holl gymunedau lleol ar ddatblygiad strategaethau a chynlluniau pwysig.

Gwneir llawer o'r gwaith ymgynghori gan wasanaethau unigol i hysbysu anghenion gwasanaethau unigol. Gall hyn fod ar y lefel anffurfiol - drwy sgysrsiau unigol rhwng Aelodau neu swyddogion a phobl leol – neu drwy fecanweithiau mwy ffurfiol megis grwpiau ffocws, holiaduron neu arolygon panel dinasyddion y Cyngor.

Cwsmeriaid sy'n Fodlon ac yn Ymgysylltu

Rydym wedi gosod targed i ni'n hunain sef y bydd y Cyngor, erbyn 2016, yn ennill ymddiriedaeth y cyhoedd drwy ymgysylltu â phobl leol a defnyddio'r hyn mae'n ei ddysgu i wneud newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. O ganlyniad, bydd cwsmeriaid yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnawn ac yn dweud wrthym eu bod wedi gweld gwelliant sylweddol yn y gwasanaethau y maent yn eu derbyn a sut maent yn eu derbyn.

I gyflawni hyn dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn gwneud adolygiad o'r ffordd y mae'r Cyngor yn deall ac yn ymateb i ddinasyddion, gan ganolbwyntio ar bedwar maes:

- Ymchwil ac Ystadegau – pwy sy'n byw, gweithio ac ymweld â Wrecsam
- Gwybodaeth y Cwsmer - pwy sy'n defnyddio (neu ddim yn defnyddio) pa rai o wasanaethau'r Cyngor
- Ymgynghoriad - Casglu gwybodaeth am ganfyddiadau a barn pobl leol i hysbysu penderfyniadau polisi a darpariaeth gwasanaethau
- Ymgysylltiad – gweithio mewn partneriaeth i ganiatáu i bobl bennu'r materion eu hunain a gwneud penderfyniadau ar y cyd

Mae'r adroddiad yma'n rhoi amrywiaeth o esiamplau o'r ffordd mae digwyddiadau ymgysylltu, ymgynghori a gwybodaeth wedi dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf. Yr her yr ydym wedi'i gosod i ni'n hunain yw rhoi prosesau a chymau amddiffyn yn eu lle i sicrhau y gwneir hyn mewn ffordd gyson a chydlynol ar draws holl wasanaethau'r Cyngor a bod barn y cyhoedd yn derbyn ystyriaeth amlwg wrth wneud penderfyniadau.

Byddwn yn barnu ein llwyddiant drwy fonitro'r canran o bobl leol sy'n teimlo bod y Cyngor yn cymryd barn trigolion i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau.


Siopa 101 Shoppa

Dwedsoch chi:

Rydym eisiau gwell cysylltiadau cludiant cyhoeddus o amgylch canol y dref

Gwnaethom ni:

Cyflwynwyd y gwasanaeth bysiau peilot 'Siopa 101 Shoppa' ym mis Mawrth 2012 mewn ymateb uniongyrchol i alw'r cyhoedd am ddod â bysiau yn ôl i'r Stryd Fawr




Ymateb i Arolygon

'Llais y bobl' yw Panel Dinasyddion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Hyd yn ddiweddar, roedd gan y panel 800 o aelodau, oedd yn cynrychioli trigolion Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn fras ac oedd yn fodlon derbyn 2-3 o arolygon ar bapur bob blwyddyn yn y post.

Yn 2011, cynigiodd adolygiad o'r panel newid i wneud arolygon ar-lein i ostwng costau ac effaith ar yr amgylchedd a chyflymu'r prosesau gan sicrhau bod modd rhoi gwell adborth i ymatebwyr. Mae gan y panel newydd 562 o aelodau ar hyn o bryd ond mae pobl yn dal i gael eu recriwtio.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno rhaglen arolwg ar-lein hefyd i'w gwneud hi'n haws i wneud arolygon cyffredinol o farn pobl leol. Caiff yr arolygon yma eu hysbysebu ar wefan y Cyngor, ar dudalennau twitter a facebook yn ogystal â thrwy ddatganiadau i'r wasg a llwybrau eraill.



Dull Cyllidebol Wrecsam

Beth oedd pwrpas yr ymgynghoriad yma?

Bob blwyddyn mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymgynghori'n eang ar ei ddull cyllidebol. Bydd y bobl yr ymgynghorir â hwy'n cynnwys y gymuned fusnes, amrywiol grwpiau o dalwyr y Dreth Gyngor ac mae hefyd yn sicrhau bod adroddiadau ei Bwyllgorau ar gael yn eang drwy'r wasg ac mae'n gwahodd trigolion unigol i roi sylwadau ar y cynigion cyllidebol. Mae hyn yn digwydd fel arfer ym mis Rhagfyr ac Ionawr cyn i lefel y Dreth Gyngor a'r gyllideb gael eu gosod ar ddiwedd mis Chwefror ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol sy'n cychwyn ar Ebrill 1.

Wnaethoch chi roi adborth i gyfranogwyr?

Mae adborth wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd dolen wedi'i chynnwys yn arolwg llais y bobl nesaf i roi gwybod i aelodau panel Llais y Bobl.

Sut cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu?

Gweithredwyd yr ymgynghoriad drwy Lais y Bobl a derbyniwyd 327 o arolygon cyflawn, gan roi cyfradd ymateb o 64%

Sut ddefnyddiodd y Cyngor y canlyniadau a pha newidiadau, os oes rhai, fydd yn cael eu gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad yma?

Rhodddwyd yr adborth o'r arolwg i'r cynghorwyr mewn gweithdy a chyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol. Roedd hi'n amlwg bod yr adborth yn adlewyrchu'r dull oedd yn cael ei ddefnyddio i baratoi cyllideb 2012/13.

Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2012/13 yn gostwng y gwariant yn y gwasanaethau canolog megis systemau gwybodaeth, cyfreithiol, cyllid ac adnoddau dynol. Mae'r gyllideb yn cynnwys cynyddiadau i ysgolion (1.68%) gofal cymdeithasol oedolion (2.73%) a gofal cymdeithasol plant (1.52%).

Yn nhermau ffioedd a chostau felly, mae cynyddiadau wedi'u cynnig ar gyfer ceisiadau cynllunio, seremonïau cofrestru a thrwyddedu tacsï sy'n gyfatebol â chanlyniadau'r arolwg. Mae costau meysydd parcio wedi'u gostwng ac mae newidiadau a gynigir i gostau nofio a hamdden wedi'u cynnig yn unol â chwyddiant.

Lefel Treth Gyngor Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (ym Mand D) yw'r 14^{eg} isaf o holl awdurdodau Lloegr a Chymru. Roedd yr adborth o'r arolwg yn ffafrio cynnydd o 3% sy'n is na lefel gyfredol chwyddiant. Cymeradwyodd y Cyngor lefel y Dreth Gyngor yn agos at y lefel yma ond ychydig yn is ar 2.69%.

Gwerthwyr ar y Farchnad

Cafodd gwerthwyr marchnad ym marchnadoedd dan do Wrecsam gonsesiwn rhent o 25% i'w helpu drwy dri o fisoedd masnachu anoddaf y flwyddyn – mis Ionawr i fis Mawrth.

Meddai Barry Williams, o Beauty Box ym Marchnad y Bobl: “Rydym yn falch iawn bod y Cyngor wedi cymryd yr amser i wrando ar bryderon y masnachwyr a gweithredu ar unwaith i helpu. Mae hyn yn rhagorol oherwydd weithiau mae olwynion democratiaeth fel petaent yn troi'n araf.”

Cais am Statws Dinas

Gofynnwyd i bobl leol a ydynt yn cefnogi cynigion i Fwrdeistref Sirol Wrecsam gwneud cais am statws dinas neu beidio. Cynhaliwyd grŵp ffocws ar y mater i archwilio'r rhesymau am farn y bobl. Dechreuodd aelodau'r grŵp drwy ganolbwyntio ar resymau pam y teimlwyd nad oedd Wrecsam yn haeddu statws dinas, yn bennaf:

- mae gormod o'r siopau'n siopau punt neu'n siopau gwag
- does dim canol tref clir
- cysylltiadau cludiant cyhoeddus gwael rhwng Bragdy'r Werddon / Dol yr Eryrod / Yr orsaf bysiau
- diffyg balchder lleol
- cwestiynu'r syniad bod Wrecsam yn cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr neu fod cyfleusterau hamdden o safon uchel

Ond, symudodd y ddadl ymlaen i'r cyfle i 'ganolbwyntio nid ar yr hyn yw Wrecsam ond ar yr hyn y gallai fod' a'r manteision posibl allai ddod gyda statws dinas, neu'r cyhoeddusrwydd a ddaw gyda gwneud cais am statws dinas:

- Gallai cydnabyddiaeth fel dinas 'helpu i atgoffa Llywodraeth Cymru bod Gogledd Cymru a Wrecsam yn bodoli'
- Cytundeb cyffredinol bod Wrecsam yn haeddu bod yn ddinas yn fwy na threfi eraill yng Nghymru
- Ni fydd statws dinas yn newid pethau ynddo'i hyn ond mae'n gyfle i gael eich clywed ac i ddangos uchelgais
- Gallai helpu i amddiffyn y lefel o wasanaeth ac ati sy'n bodoli ar hyn o bryd
- Cyhoeddusrwydd am ddim i ddenu pobl i atyniadau niferus Wrecsam – safle treftadaeth byd, amgueddfa ac ati,

Er gwaethaf y gefnogaeth gyffredinol gan y grŵp ffocws, nid oedd grwpiau eraill megis Senedd yr Ifanc yn cefnogi statws dinas. Cafwyd arolwg ar-lein a chopi caled hefyd gyda 503 yn cefnogi cais a 977 yn erbyn cais o'r fath.

Er bod aelodau'r Bwrdd Gweithredol wedi nodi canlyniadau'r broses ymgynghori, eu penderfyniad oedd gwneud cais am statws dinas, gan ddweud ei bod hi'n hanfodol i'r Cyngor ddangos arweinyddiaeth ar hyn o bryd a gwneud cais ffurfiol am statws dinas oherwydd teimlwyd y byddai hyn o'r budd mwyaf i bobl y Fwrdeistref Sirol ac, yn arbennig, yr ifanc.

Cafodd Llanelwy statws dinas y Jiwbilî Diemwnt. Mae cais llawn Wrecsam i'w weld ar:

http://www.wrexham.gov.uk/english/events/city_status_2012/index.htm

Gofal Cymdeithasol Oedolion

Trwy gydol 2011/12, parhaodd Gofal Cymdeithasol Oedolion i ddatblygu eu dulliau o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'u perthnasau a'u gofalwyr.

Un esiampl o "Dwedsoch chi – Gwnaethom ni", cafodd tudalen y Gofalwyr ar wefan y Cyngor ei gwella'n fawr yn ystod 2011/12. Roedd y gwaith yma mewn ymateb uniongyrchol i adborth gan Ofalwyr a ofynnodd am wybodaeth gefnogol er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith gofalu a helpu i barhau â'u bywyd eu hunain y tu allan i'r rôl Gofalu orau y gallent.

Esiampl arall yw monitro safon y gwasanaethau y mae Gofal Cymdeithasol Oedolion yn eu darparu, lle mae dull cynhwysfawr o ymgysylltu a rhoi adborth wedi bod ar waith ers cyfnod hir. Er enghraifft, yn ystod 2011/12, roeddem yn ymgysylltu'n uniongyrchol gyda 360 o'r bobl oedd yn derbyn Gofal Cartref, yn bersonol neu dros y ffôn yn bennaf, i gadarnhau eu barn am y gwasanaethau maent yn eu derbyn. Rydym wedi canfod er enghraifft, er bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu trin gydag urddas a gofal ac yn cael derbyn clust i wrando arnynt, nid oeddent bob amser yn cael gwybod mewn da bryd bob tro am newidiadau i'w gofal. Felly, aethom ati i fonitro perfformiad darparwyr yn fanwl ar y mater yma drwy gydol y flwyddyn, ac o ganlyniad mae hyn wedi gwella.

Esiampl arall yw'r ffordd mae ein comisiynwyr yn ymgysylltu â'r bobl hynny sy'n aelodau o Glybiau Cinio (gyda chymorth Gofal Cymdeithasol Oedolion, drwy Age Concern) i fesur eu sylwadau am y ffordd y gellid gwella'r gwasanaeth ymhellach. Ar sail yr adborth yma rydym wrthi'n awr yn datblygu gwasanaeth Clwb Cinio 'a mwy', a fydd hefyd yn cynnwys rhannu gwybodaeth a gweithgareddau cymdeithasol oll wedi'u hanelu at hybu annibyniaeth a lles i bobl hyn.

Dim ond tair esiampl yw'r uchod o'r ffordd mae Gofal Cymdeithasol Oedolion yn gwrandao ar yr hyn mae pobl yn ei ddweud a gweithredu ar eu hadborth.

Ar sail ehangach, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol, sy'n rhoi hunanasesiad o berfformiad a manylion y ffordd y byddwn yn mynd ati i ymdrin â heriau yn y dyfodol. Cyhoeddir adroddiad drafft bob mis Mawrth i dderbyn ymgynghoriad. Defnyddir yr adborth a dderbyniwn i hysbysu fersiwn terfynol yr adroddiad, a gyhoeddir bob mis Gorffennaf. Gallwch weld yr adroddiad a llawer mwy o wybodaeth am ymgysylltiad a gwelliannau Gofal Cymdeithasol Oedolion ar

http://www.wrexham.gov.uk/english/council/social_services/index_socialcare.htm

Parcio am Ddim mewn dau faes parcio Canol Tref

Cyflwynodd Cyngor Wrecsam drefniadau parcio ceir newydd yn cynnwys parcio am ddim mewn dau o'i feysydd parcio yng Nghanol y Dref o Ddydd Llun 31 Hydref 2011. Daw'r camau yma yn dilyn ymgynghoriad â fforwm Canol y Dref a Siambr Fasnach Wrecsam yn dilyn cynigion am ffioedd parcio ar y stryd.

Lleisiodd masnachwyr eu pryderon bod costau parcio'n niweidio busnesau yng nghanol y dref ac y gallai rwystro adferiad economaidd. Daw'r penderfyniad i roi cynnig ar barcio ceir yn rhad ac am ddim mewn ymateb i'r pryderon hynny er mwyn annog mwy o bobl i'w defnyddio ac i wella gweithrediad effeithiol meysydd parcio canol tref Cyngor Wrecsam.

Strategaeth Cydlyniad Cymunedol

Cynhaliodd y Grŵp Cydgordio Cydlyniad Cymunedol ddigwyddiad Creu Gweledigaeth i:

- ddod i gonsensws ynglŷn â symud y strategaeth yn ei blaen;
- siapio ein meddwl am yr ail Strategaeth Cydlyniad Cymunedol amlasiantaeth 2011-14;
- nodi'n glir beth yw'r meysydd blaenoriaeth a rannwn a bod yn glir ynglŷn â'r hyn na fyddwn wedi'i gynnwys yn y strategaeth a pham;
- sicrhau ein bod yn blaenoriaethu meysydd lle gallwn gael effaith;
- cadarnhau cytundeb ar y cyd ynglŷn â'r hyn a wyddwn a'r hyn y mae angen i ni ei wybod; ac
- adolygu a chytuno ar y weledigaeth ar gyfer cydlyniad a'r amcanion strategol allweddol.

Gwahoddwyd sefydliadau ac unigolion sy'n methu dod i'r digwyddiad i lenwi holiadur cyn-digwyddiad. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Chraffu ar Bolisi, aeth y Strategaeth ddrafft allan i ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys:

- nifer o ddigwyddiadau wedi'u seilio yn y gymuned i hwyluso gwell dealltwriaeth o amcanion y Strategaeth ac i alluogi adborth; a
- cyfnod ymgynghori ffurfiol o 6 wythnos lle cawsai copïau o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Strategol ei ddsbarthu'n eang gyda holiadur. Derbyniwyd 18 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion a sefydliadau.

Yn ystod y broses ymgynghori, cadarnhaodd y sefydliadau a'r cyrff partner eu cyfraniad tuag at gymryd y camau gweithredu yn eu blaenau.

Negeseuon ymgynghori allweddol:

Drwy'r broses ymgynghori, canfuwyd nifer o negeseuon allweddol:

- parhau i gyflawni'r blaenoriaethau a ddatblygir drwy'r Strategaeth Cydlyniad Cymunedol cyfredol;
- cynyddu lefel yr ymgysylltiad gyda phlant a phobl ifanc yn ymwneud â'r ddadl cydlyniad;
- datblygu cysylltiadau mwy eglur gyda'r agenda cydraddoldeb;
- archwilio materion cydlyniad cymunedol yn fanylach mewn perthynas ag anabledd a datblygu opsiynau ar gyfer mwy o ymgysylltiad
- datblygu gwell dealltwriaeth o'r cysylltiadau a'r blaenoriaethau a rennir gyda gwaith adfywio cymunedol;
- gwella'r trefniadau monitro a gwerthuso; a
- pharhau i brif ffrydio cydlyniad cymunedol lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y blaenoriaethau ar gyfer 2011-14 a byddent wedi'u darparu drwy gynlluniau gweithredu a chynlluniau prosiect yn y dyfodol.

Mae AVOW – y Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol yn Wrecsam – wedi cymeradwyo'r broses ymgynghori ac ymgysylltu agored eang a gafwyd.

Mae'r strategaeth derfynol ar gael ar:

http://www.wrexham.gov.uk/english/community/community_cohesion/strategy.htm

Marchnad Dydd Iau

Drwy eu Cadeirydd, mae masnachwyr ar farchnad wythnosol awyr agored 'Dydd Llun' wedi gofyn am ail farchnad awyr agored yng nghanol tref Wrecsam.


Mae Sgwâr y Frenhines a Stryt yr Arglwydd wedi cael eu cydnabod fel y farchnadle yng nghanol tref Wrecsam a dewis cyntaf y masnachwyr fel safle ar gyfer ail farchnad a gymeradwywyd fel peilot ac sy'n digwydd ar ddyddiau Iau, un o'r dyddiau marchnad traddodiadol yn Wrecsam.

Cafwyd ymgynghoriadau gyda Masnachwyr, Fforwm Canol Tref a busnesau unigol o fewn ac yn agos i Sgwâr y Frenhines a chafwyd asesiad risg a ddaeth i'r casgliad bod rhoi cynnig ar y farchnad yn bosibl ac yn fanteisiol.

Canfyddiad o Drosedd

Beth oedd pwrpas yr ymgynghoriad yma?

I ymgynghori â thrigolion Wrecsam am eu canfyddiadau hwy o drosedd yng nghanol tref Wrecsam ac yn y Sir.



Wnaethoch chi roi adborth i gyfranogwyr?

Mae adborth wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd dolen wedi'i chynnwys yn arolwg nesaf llais y bobl i roi gwybod i'r aelodau am banel Llais y Bobl.

Sut gafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi?

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad drwy Lais y Bobl a derbyniwyd 327 o arolygon cyflawn, a roddodd gyfradd ymateb o 64%,.

Sut aeth CBSW ati i ddefnyddio'r canlyniadau a pha newidiadau, os oedd, fydd yn cael eu gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad yma?

Yn rhan o gynllun Partneriaeth Diogelwch y Gymuned ar gyfer 2011/2014, bydd y bartneriaeth yn parhau i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r gymuned i dawelu meddwl y cyhoedd a'u gwneud yn fwy hyderus. Bydd y Bartneriaeth yn cydlynu ymgyrchoedd allweddol mewn ymateb i faterion a welir gan grwpiau gweithredu Partneriaeth Diogelwch y Gymuned, er enghraifft, ymgyrchoedd tymhorol ac ymgyrchoedd gweithredol i dynnu sylw at faterion allweddol a chefnogi mentrau gostwng troseddu. Yn rhan o'r gwaith yma gwneir pob ymdrech i atgyfnerthu negeseuon positif am drosedd a diogelwch cymunedol yn yr ardal.

Yn anogol iawn, dywedodd canran uchel o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y Fwrdeistref Sirol ddydd a nos.

Byddai'n ymddangos bod canran uchel o ymatebwyr wedi dweud nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yng nghanol y dref yn y nos ac roeddent yn awgrymu y gellid gwella hyn os byddai mwy o heddlu o gwmpas ar y strydoedd a bod rhywbeth yn cael ei wneud i ymdrin â gor-yfed.

Mae'r dull asiantaethau amrywiol a ddatblygwyd o ganlyniad i'r ymgyrch wedi cyfrannu tuag at ostwng lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu treisgar sydd wedi'u gwaethygu gan alcohol yng nghanol y dref. Mae lefel y trais difrifol yn parhau'n isel iawn hefyd ac yn cyfrif am ddim ond 3% o'r holl ddigwyddiadau treisgar yn erbyn pobl yn yr ardal.

Mae Cyngor Wrecsam yn dal i ddarparu arian i dalu am heddwision cymunedol yn y Fwrdeistref Sirol. Maent yn aelodau gwerthfawr o'r timau Plismona ac yn dal i gerdded y strydoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Gwasanaethau Tai

Mae'r Grŵp Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid Wrecsam wedi bodoli ers 2004 ac mae'n gadael i gynrychiolwyr tenantiaid weithio'n agos gyda swyddogion a chynghorwyr yn barhaus er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Cynhelir cyfarfod o gynulliad y tenantiaid bob 3 mis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i denantiaid am unrhyw faterion yn ymwneud â thai a rhoi'r cyfle iddynt ddylanwadu ar bolisi'au/penderfyniadau. Cafwyd dwy gynhadledd tenantiaid lwyddiannus hefyd (yn fwyaf diweddar yn 2011) oedd â nifer dda'n mynychu ac yn y rhoi adborth positif – cafodd y tenantiaid gyfranogi yn y broses o'u cynllunio a dewis eu fformat.

Ochr yn ochr â hyn mae newyddlen chwarterol i denantiaid a ddefnyddir i hybu cyfranogaeth y tenantiaid ac i ymgynghori a rhoi gwybod iddynt am yr hyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth. Roedd canlyniadau arolwg y tenant 2010 yn bositif iawn i'r gwasanaeth. Mae 7% o'r tenantiaid yn fodlon gyda'r gwasanaeth cyffredinol ac mae 80% yn fodlon eu bod yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf.

Mae esiamplau penodol o gyfranogaeth yn effeithio ar benderfyniadau a darpariaeth gwasanaethau, yn cynnwys:

- Ymgynghoriad â thenantiaid am y rhaglen adnewyddu ceginau adrannol, gyda thenantiaid yn penderfynu ar y cynllun a'r gwneuthurwr;
- Cyfranogaeth y tenant yn y gwaith o lunio rhestr fer a recriwtio darparydd allanol i ddarparu swyddogaeth Cyfranogaeth y Tenant. Roedd hyn yn cynnwys bod yn rhan o'r panel cyfweld yn ystod mis Chwefror 2012
- Cyfranogaeth tenantiaid yn narpariaeth weithredol y prosiect i osod 30,000 o baneli solar ffotofoltaig ar dai cymdeithasol, yn cynnwys sut y yr hoffai tenantiaid dderbyn eu gohebiaeth yn ystod y prosiect. Roedd hyn hefyd yn cynnwys 8 sioe deithiol a gynhaliwyd ar draws y fwrdeistref
- Mae Grŵp Adolygiad y Tenantiaid wedi'i sefydlu i sicrhau cyfranogaeth y tenantiaid yn ystod ail strwythuro parhaus yr adran atgyweiriadau. Yn ddiweddar mae hyn wedi cynnwys cyfranogaeth y tenant yn ystod cyflwyniad y gwaith symudol o fewn y gwasanaeth.
- Prosiect pwysig dros y 2 flynedd ddiwethaf oedd chwalu fflatiau Hightown. Roedd y tenantiaid yn chwarae rhan weithgar mewn prosiect sydd wedi cael ei reoli a'i ddarparu'n rhagorol. Cynhaliwyd nifer o ddiwrnodau ymgynghori ac mae'r tenantiaid yn ymwneud erbyn hyn â'r gwaith o ddylunio ac ailddatblygu'r safle.
- Cyflwyno'r model olwyn beic mewn tai lloches. Mae'r tenantiaid wedi ymwneud yn eang â'r cynllun yma ac mae eu cyfranogaeth a'u hadborth wedi tywys y ffordd ymlaen i'r prosiect yma.
- Mae'r tenantiaid wedi gweithredu ar y panel gwasanaethu nwy – gwella'r gwasanaeth i denantiaid.
- Datblygu'r safle 'Fy Nhŷ Cyngor' ar-lein i adael i denantiaid y Cyngor roi gwybod am waith trwsio angenrheidiol ac olrhain yr atgyweiriad.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Mae cyfranogaeth defnyddiwr y gwasanaeth yn ganolog i'r broses o adolygu a datblygu'r gwasanaeth Tîm o Amgylch y Plentyn (TAC) a gwaith y Tîm Rhianta. Mae hyn wedi arwain at newidiadau megis y TAC yn cefnogi mynediad uniongyrchol gan deuluoedd, yn hytrach na bod angen atgyfeiriad proffesiynol. Mae trafodaeth gyda phobl ifanc wedi achosi i'r holl daflenni TAC gael eu hailgynllunio'n gyfan gwbl hefyd.

- Roedd ymgynghoriad llawn gyda rhieni a gofalwyr wedi hysbysu datblygiad Strategaeth Rhianta Wrecsam yn arbennig mewn perthynas â bylchau yn y gwasanaeth. Mae'r strategaeth hefyd yn gosod cyfranogaeth y defnyddiwr gwasanaeth mewn adolygu a datblygu gwasanaethau fel safon ansawdd. Mae hefyd yn gymal contract safonol i'r holl Wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf
- Arweiniodd yr ymgynghoriad gyda rhieni ar y Rhwydwaith Rhieni (Tîm Rhianta) at greu rhwydwaith rhithwir a allai fod yn hygyrch i'r rheiny sy'n methu cyrraedd cyfarfodydd
- Arweiniodd yr ymgynghoriad gyda theuluoedd at sefydlu'r grŵp cefnogi i rieni, Willow, i rieni plant sy'n dreisgar tuag atynt, ac hefyd y 'Grŵp Dydd Gwener', sef grŵp cefnogi i rieni plant gydag ADHD neu ASD, sydd yn awr yn wasanaethau cefnogi prysur sy'n ennyn parch mawr

Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi Senedd yr Ifanc sy'n cwrdd yn rheolaidd ac wedi diffinio'r prif faterion sy'n wynebu pobl ifanc yn Wrecsam a sut i ddatblygu'r gwaith sy'n berthnasol iddynt:

- Iechyd rhywiol
- Cyffuriau, alcohol ac ysmegu
- Enw da pobl ifanc
- Datblygiad yr iaith Gymraeg
- Addysg
- Cyfleusterau adloniant a chludiant fforddiadwy

Ystyriwyd y blaenoriaethau hyn wrth ddiffinio Cynllun y Cyngor 2012-16 ac o ganlyniad roedd gweithredoedd ychwanegol wedi'u cynnwys o amgylch cyfleusterau adloniant - gweithgareddau i bobl yn eu harddegau.

Y Prif Faterion i Fwrdeistref Sirol Wrecsam

Beth oedd pwrpas yr ymgynghoriad yma?

I ofyn i bobl leol pa bethau sydd angen eu gwella fwyaf ar draws y Fwrdeistref Sirol. Defnyddiwyd barn pobl i hysbysu'r gwaith cynllunio a blaenoriaethu'r gwasanaethau a'r prosiectau y bydd y Cyngor yn eu darparu.

Wnaethoch chi roi adborth i gyfranogwyr?

Roedd adborth wedi'i gynnwys yng Nghynllun y Cyngor ac unwaith y mae cyfieithiad Cymraeg ar gael, bydd wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Sut cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu?

Erthygl amdano yn yr Evening Leader, copïau yn y dderbynfa, y rhyngwrwyd, facebook, twitter ac yn fewnol drwy'r mewnwrwyd a bwletin Dydd Gwener

Sawl ymateb dderbyniodd yr ymgynghoriad?

268 o ymatebion

Sut ddefnyddiodd CBSW y canlyniadau a pha newidiadau, os bydd rhai, fydd yn cael eu gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad yma?

Cafwyd arolwg am 'Y Prif Faterion i Fwrdeistref Sirol Wrecsam' yng ngeaf 2011 a chafodd ei hysbysebu drwy erthygl yn y Wrexham Evening Leader a hysbysebion yn swyddfeydd y Cyngor, ar y wefan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Derbyniwyd 268 o ymatebion.

Nododd yr ymatebwyr y meysydd hynny sydd angen eu gwella fwyaf fel yma:

1. Rhagolygon swyddi (51.8%)
2. Tai da fforddiadwy (39.0%)
3. Trwsio ffyrdd a phalmentydd (35.9%)
4. Lefelau cyflogau a chostau byw (33.1%)
5. Gweithgareddau i Bobl yn eu Harddegau (32.3%)

Er bod y pedwar maes cyntaf wedi'u hadlewyrchu yng nghynllun y cyngor, mae atgyweiriadau ffyrdd a phalmentydd yn faes lle mae'r Cyngor yn wynebu costau'n codi yn erbyn cyllideb statig. Felly, er bod rhaglen dreigl o ailadeiladu a thrwsio ar lwybrau sy'n dirywio i gyflwr gwael, y nod fydd cynnal yn hytrach na gwella ansawdd cyffredinol rhwydwaith ffyrdd y Bwrdeistrefi Sirol.

Gweithgareddau i bobl yn eu harddegau oedd yr unig faes yn codi oedd heb ei amlygu yng Nghynllun drafft y Cyngor, ond roedd y maes yma wedi'i bennu gan Senedd yr Ifanc a thrwy'r ymgynghoriad ar y cydgynllun. Mae camau gweithredu priodol o'r Cydgynllun wedi'u hadlewyrchu dan ganlyniad y Bobl 'Pe1 - Mae gan Blant a Phobl Ifanc obeithion positif, ac maent yn dysgu a chyflawni eu potensial'.

Yn nhermau'r meysydd hynny sydd angen eu gwella fwyaf, penderfynwyd mai tai fforddiadwy oedd y meysydd pwysicaf gan y rheiny yn yr ystod oedran 19-30 (58.3%), gan ferched (54.7%) a chan y rheiny sy'n byw naill ai y tu allan (56.3%) neu o fewn ardaloedd gwledig y Fwrdeistref Sirol (51.6%). Roedd darpariaeth addysg yn fwy tebygol o gael eu hamlygu gan y rheiny dros 61 (60%).

Mae meysydd allweddol eraill a bennwyd gan Senedd yr Ifanc yn cynnwys: iechyd rhywiol a chyffuriau, alcohol ac ysmegu, sy'n faterion allweddol yn y Cydgynllun er mai dim ond alcohol a thybaco sydd wedi'u hamlygu yng

Nghynllun y Cyngor oherwydd y flaenoriaeth a roddir i'r materion hyn gan lechyd y Cyhoedd Cymru; Gwella Addysg, sydd wedi'i adlewyrchu yng nghanlyniad blaenoriaeth Pe1; Yr Iaith Gymraeg, sydd wedi'i adlewyrchu yng nghanlyniad blaenoriaeth Pe6; Cludiant fforddiadwy, sydd wedi'i adlewyrchu yn ffrydiau Cludiant Cyhoeddus canlyniad blaenoriaeth P14; ac enw da pobl ifanc nad yw wedi'i adlewyrchu yn y cynllun yma ond sy'n cael ei ystyried ymhellach gan is-grŵp o'r Senedd.

Gofynnir am wybodaeth am gydraddoldeb gan y rheiny sy'n cyfranogi mewn ymarferion ymgynghori ac ymgysylltiad. Defnyddir yr wybodaeth yma i ddau bwrpas - i ddeall pwy sydd (a phwy sydd ddim) yn cymryd rhan mewn ymarferion o'r fath, a dadansoddi ymatebion i amlygu'r gwahaniaethau mewn barn a phrofiad rhwng gwahanol gymunedau. Nid yw gwybodaeth am gydraddoldeb yn cael ei gasglu'n gyson, ei gwblhau gan ymatebwyr lle gofynnir amdano neu ei ddadansoddi drwy ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriad ar hyn o bryd, ac mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid ei wella yn ystod y Cynllun Cyngor yma.

Cludiant Cymunedol

Beth oedd pwrpas yr ymgynghoriad yma?

Canfod a oedd y trefniadau presennol yn ddigonol ac a oedd angen cynllun drwy'r fwrdeistref gyfan

Wnaethoch chi roi adborth i gyfranogwyr?

Byddwn yn bwydo yn ôl i grwpiau cymunedol unwaith mae'r strategaeth wedi'i chytuno.

Sut cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu?

Drwy AVOW, grwpiau cymunedol, darparwyr cludiant cymunedol, ar y we, canolfan cyswllt, papurau, cylchgrawn y cyngor a nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus.

Faint o ymatebion dderbyniodd yr ymgynghoriad?

Yn gyfan gwbl, derbyniodd yr ymgynghoriad cludiant cymunedol 17 o ymatebion ar yr holiadur

Sut ddefnyddiodd CBSW y canlyniadau a pha newidiadau, os oes rhai, fydd yn cael eu gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad yma?

Byddent yn cael eu defnyddio i hysbysu'r strategaeth cludiant cyhoeddus a gefnogir ar gyfer 2013-13 wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â sut i wario arian a ddyrennir i gefnogi cludiant cyhoeddus.

Cludiant Cyhoeddus

Beth oedd pwrpas yr ymgynghoriad yma?

Mae'r cyngor yn cymorthdal rhai llwybrau cludiant cyhoeddus ar hyn o bryd. Y cwbl ofynnodd yr ymgynghoriad oedd pa feysydd o gludiant cyhoeddus, os oes rhai, ddylai'r cyngor ganolbwyntio ei gyllideb arno.

Wnaethoch chi roi adborth i gyfranogwyr?

Bydd dogfen cludiant cyhoeddus a gynorthwyr ar gael yn Ebrill 2012 gan roi syniad o le gellir gwneud arbedion a gwariant, neu le maent wedi digwydd. Ymgysylltir â'r cynghorau cymunedol ac AVOW cyn i'r strategaeth fynd yn fyw.

Sut cafodd yr ymgynghoriad gyhoeddusrwydd?

Roedd yr ymgynghoriad ar-lein, yng nghylchgrawn cyswllt y cyngor, taflenni newyddion AVOW, ar-lein, wedi'u hysbysebu yn y ganolfan gyswllt, cynhaliwyd 2 ddigwyddiad cyhoeddus yn y llyfrgell a'r orsaf bysiau, arolygon ar y bws, roedd copïau caled ar gael, ymgysylltwyd â chynghorau cymuned, ysgolion, grwpiau cymunedol a grwpiau cyngor.

Sawl ymateb dderbyniodd yr ymgynghoriad?

166 o ymatebion

Sut ddefnyddiodd CBSW y canlyniadau a pha newidiadau, os oes rhai, fydd yn cael eu gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad yma?

Bydd yn cael ei ddefnyddio i hysbysu'r strategaeth Cludiant Cyhoeddus a gefnogir

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltiad rhanbarthol i sefydliadau, grwpiau a chyrff sydd oll â'r ffocws ar gydraddoldeb ledled Gogledd Cymru i ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb rhanbarthol.

Yna cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltiad cyhoeddus 'Pa mor Deg yw Wrecsam' yn lleol a daeth mwy na chant o bobl i hwn, yn cynrychioli'r holl 'grwpiau wedi'u hamddiffyn' o dan y Ddeddf i ddatblygu'r amcanion lleol i Fwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r adborth o'r digwyddiadau rhanddeiliad yma wedi hysbysu cynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a bydd adroddiadau sy'n crynhoi canlyniadau'r digwyddiadau'n cael eu defnyddio hefyd i hysbysu darpariaeth gwasanaeth ehangach.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gael ar:

<http://www.wrexham.gov.uk/english/council/equality/equality.htm>

Bodddhad y Cwsmer Hamdden

Pwrpas yr ymgynghoriad:

Ymarfer ymgynghoriad y cwsmer blynyddol. Roedd hyn hefyd yn rhan o'r adolygiad comisiynu parhaus.

A roesom ni adborth i gyfranogwyr?

Naddo.

Ymhle cafodd yr ymgynghoriad gyhoeddusrwydd?

Roedd yr ymgynghoriad ar gael yn ein cyfleusterau hamdden yn unig

Nifer yr Ymatebion:

236

Canlyniadau:

Yn weddol bositif yn gyffredinol. Mae rhai sylwadau penodol yn ymwneud â dosbarthiadau ychwanegol, mwy o amser yn y pwll heb raglenni ffurfiol, yn cael eu harchwilio. Wedi hysbysu'r adolygiad comisiynu parhaus.

Creu Wreccsam egniol

Pwrpas:

Ymgynghoriad ehangach gyda'r cyhoedd am eu barn ar ymarfer corff, y ddarpariaeth ar gyfer ymarfer corff a'r lefelau o weithgarwch corfforol. Wedi ymgynghori â phartneriaid, cwsmeriaid a phobl nad ydynt yn gwsmeriaid.

A roesom ni adborth i gyfranogwyr?

Naddo

Ymhle cafodd gyhoeddusrwydd?

Gwefan CBSW, wedi'i e-bostio i gronfeydd data, safleoedd cyfryngau cymdeithasol, canolfannau hamdden a gwnaethom rywfaint o ymgynghoriadau canol tref gyda phobl yn cerdded heibio.

Nifer yr Ymatebion:

514

Canlyniadau:

Roedd yr ymgynghoriad yn dangos bod galw mawr am wasanaeth chwaraeon a hamdden, ond hefyd bod newid yn y galw i adlewyrchu tueddiadau ee: cais am gaeau gyda llifoleuadau 3G /canolfan rhaffau uchel ac ati. Mae'r canlyniadau wedi hysbysu'r prosiect comisiynu parhaus a bydd newidiadau wedi'u gwneud o ganlyniad.

Monitro Cwynion, Canmoliaeth a Sylwadau

Mae cwynion, canmoliaeth a sylwadau'n ffynonellau gwybodaeth pwysig am ein cwsmeriaid, eu profiad a'r ffordd maent yn gweld y gwasanaethau. Mae casglu a dadansoddi cwynion yn helpu i bennu gwelliannau posibl i'r gwasanaethau neu i ymdrin â chamsyniadau defnyddwyr am wasanaethau.

Dyma esiamplau o newidiadau i wasanaethau a gyflwynwyd o ganlyniad i gwynion:

Niwsans sŵn gan gerbydau ailgylchu

Roedd un preswilydd yr oedd ei batrwm gweithio'n golygu ei fod yn mynd i'r gwely oddeutu 2am yn cwyno ei fod yn cael ei ddeffro cyn 8.00am gan sŵn peiriannau ailgylchu'r gwasanaeth Casglu Gwastraff.

Yn dilyn archwiliad cwynion cam 2 cytunodd y gwasanaeth archwilio a threialu atebion posibl drwy newid man chychwyn y llwybr casglu - gan gyrraedd am 8.00am gerllaw cartref y cynnwyr ac nid yn gynharach na hynny. Drwy'r llythyr ymateb i gŵyn rhoddwyd rhesymau clir am amseriad dewisol gwreiddiol y daith ac esboniwyd y goblygiadau a'r effaith negyddol o bosibl os byddai'r daith yn cael ei newid yn rhy ddramatig, ynghyd â'r ateb a gynigiwyd i'w dreialu.

Ailgodi tâl am dai

Yn dilyn cwynion a dadleuon am ailgodi tâl am dai, mae'r Gwasanaethau Tai'n newid eu proses i denantiaid sy'n symud allan. Nawr maent yn gwneud yr archwiliad gyda'r tenant lle bo modd; yn trafod unrhyw faterion a bennwyd gyda nhw i roi'r cyfle iddynt gywiro pethau ac felly osgoi 'ailgodi' tâl yn ddianghenraid am waith gofynnol neu am glirio'r eiddo. Maent hefyd yn glir iawn ynglŷn ag atebolrwydd a chyfrifoldeb y llythyr 'cydnabod diwedd tenantiaeth' - gan felly "gyflwyno'r cefndir". Maent hefyd yn tynnu lluniau fel tystiolaeth yn enwedig os nad yw'r tenant yn bresennol ac maent wedi dechrau gwneud yr un peth hefyd i denantiaid sy'n symud i mewn.

Mae'r gwelliant yma yn y broses yn golygu bod llai o gwynion yn cael eu derbyn yn ymwneud â 'chodi tâl' am fod y broses yn fwy eglur ac am fod tystiolaeth ac mae agwedd sicr o fod eisiau gweithio gyda thenantiaid.

www.wrexham.gov.uk

Gofynnir i ymwelwyr â gwefan y Cyngor a ydynt eisiau cymryd rhan mewn arolwg ar-lein wedi iddynt orffen edrych ar y wefan. Mae'r arolwg ar-lein yn gofyn nifer o gwestiynau, megis a yw pobl wedi cael hyd i'r hyn roeddent yn chwilio amdano, beth maen nhw'n ei feddwl o'r wefan, ac ati.

Mae dadansoddiad o wybodaeth y cwsmer - er enghraifft, y gwasanaethau ar-lein y chwilir amdanynt amlaf ac y ceir gafael arnynt amlaf - wedi arwain at ailgynllunio'r wefan i sicrhau bod modd cyrraedd 'tasgau mwyaf poblogaidd' yn hawdd o dudalen flaen y wefan.

Mae'r wefan hefyd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd gyda gwasanaethau ychwanegol megis y cyfrifiannell budd-daliadau newydd sy'n gadael i bobl adolygu ei hawl tebygol i fudd-daliadau ar-lein ac yna ddefnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i darparu'n barod i'r cyfrifiannell fel y man cychwyn ar gyfer cais go iawn am fudd-dal.